

## NOSC 2026 Rhif 182

### Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL

## Cyfarwyddydau Gwasanaethau Meddygol gan Ddarparwyr Amgen (Cymru) 2026

Gwnaed

14 Hydref 2026

Yn dod i rym

15 Hydref 2026

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 12(3), 41(2)(b), a 203(9) a (10) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(a), yn rhoi'r Cyfarwyddydau a ganlyn.

### RHAN 1

#### CYFFREDINOL

#### Enwi, dod i rym, cymhwyso a dehongli

1.—(1) Enw'r Cyfarwyddydau hyn yw Cyfarwyddydau Gwasanaethau Meddygol gan Ddarparwyr Amgen (Cymru) 2026.

(2) Daw'r Cyfarwyddydau hyn i rym ar 15 Hydref 2026.

(3) Mae'r Cyfarwyddydau hyn wedi eu rhoi i'r holl Fyrddau Iechyd Lleol yng Nghymru.

(4) Yn y Cyfarwyddydau hyn—

ystyr “claf” (“*patient*”) yw person y mae'n ofynnol i'r contractwr GMDdA ddarparu gwasanaethau meddygol sylfaenol iddo o dan ei gontract GMDdA;

mae i “contract GIG” yr un ystyr ag “NHS contract” yn adran 7 o Ddeddf 2006(b);

ystyr “corff trwyddedu” (“*licensing body*”) yw unrhyw gorff sy'n trwyddedu neu'n rheoleiddio unrhyw broffesiwn;

ystyr “Deddf 2006” (“*the 2006 Act*”) yw Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006;

ystyr “GMDdA” (“*APMS*”) yw trefniadau a wneir o dan adran 41(2)(b) o Ddeddf 2006 (gwasanaethau meddygol sylfaenol) ar gyfer darparu gwasanaethau meddygol sylfaenol, ac mae “contract GMDdA” (“*APMS contract*”) a “contractwr GMDdA” (“*APMS contractor*”) i'w dehongli yn unol â hynny;

ystyr “gwasanaethau unedig” (“*unified services*”) yw'r gwasanaethau a ddisgrifir yn rheoliadau 17 a 18(2) o Reoliadau 2023 (gwasanaethau unedig) neu wasanaethau sy'n cyfateb i'r gwasanaethau hynny;

(a) 2006 p. 42.

(b) Diwygiwyd adran 7 gan adrannau 95 a 170 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (p. 14) a pharagraff 87 o Atodlen 5 iddi; adran 306(4) o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012 (p. 7) a pharagraff 21 o Atodlen 7, paragraff 11 o Atodlen 17 a pharagraff 13(a), (b), (c), (d), (e) ac (f) o Atodlen 21 iddi; adran 186(6) o Ddeddf Iechyd a Gofal 2022 (p. 31) a pharagraff 1(1) o Atodlen 1 a pharagraff 140 o Atodlen 4 iddi; O.S. 2022/1174; ac O.S. 2023/98.

mae i “gwasanaethau y tu allan i oriau” (“*out of hours services*”) yr un ystyr ag yn rheoliad 3 o Reoliadau 2023;

mae i “oriau craidd” (“*core hours*”) yr un ystyr ag yn rheoliad 3 o Reoliadau 2023;

ystyr “Rheoliadau 2023” (“*the 2023 Regulations*”) yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) 2023(a);

mae i “rhestr gofal sylfaenol” (“*primary care list*”) yr un ystyr ag yn rheoliad 3 o Reoliadau 2023;

ystyr “rhestr o gleifion” (“*list of patients*”) yw, mewn perthynas â chontractwr GMDdA, y rhestr a gynhelir mewn cysylltiad â'r contractwr hwnnw gan y Bwrdd Iechyd Lleol o dan gyfarwyddyd 11.

(5) At ddibenion y gofyniad yn y Cyfarwyddydau hyn i gontract GMDdA gynnwys telerau sydd â'r effaith a bennir mewn darpariaethau yn Rheoliadau 2023, mae'r diffiniadau y cyfeirir atynt ym mharagraff (4), a'r telerau hynny, i'w darllen fel pe bai cyfeiriadau yn Rheoliadau 2023 at—

- (a) “contract” neu “y contract” yn gyfeiriadau at “contract GMDdA” neu at “y contract GMDdA”,
- (b) “contractwr” neu “y contractwr” yn gyfeiriadau at “contractwr GMDdA” neu at “y contractwr GMDdA”, ac
- (c) darpariaeth benodol yn Rheoliadau 2023 yn gyfeiriadau at ddarpariaeth gyfatebol yn y Cyfarwyddydau hyn, pan fo'r Cyfarwyddydau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i deler cyfatebol gael ei gynnwys mewn contract GMDdA.

### Safonau gofynnol

2. Nid oes dim yn y Cyfarwyddydau hyn yn atal Bwrdd Iechyd Lleol rhag cytuno ar delerau contractiol contract GMDdA sydd—

- (a) yn ei gwneud yn ofynnol i'r contractwr GMDdA gyflawni ar lefel uwch, neu gyflawni rhwymedigaethau mwy helaeth, neu
- (b) yn darparu hawliau i'r Bwrdd Iechyd Lleol sy'n fwy helaeth nag a fyddai'n ofynnol fel arall yn unol â'r Cyfarwyddydau hyn.

## RHAN 2

### AMODAU AR DDARPARWYR

3.—(1) Ni chaiff Bwrdd Iechyd Lleol ymrwymo i gontract GMDdA gydag unigolyn os yw'r unigolyn hwnnw'n dod o fewn rheoliad 6(2) o Reoliadau 2023.

(2) Ni chaiff Bwrdd Iechyd Lleol ymrwymo i gontract GMDdA gyda chwmni—

- (a) os yw'r cwmni hwnnw, neu
- (b) os yw unrhyw gyfarwyddwr neu unrhyw ysgrifennydd i'r cwmni hwnnw,

yn dod o fewn rheoliad 6(2) o Reoliadau 2023.

(3) Ni chaiff Bwrdd Iechyd Lleol ymrwymo i gontract GMDdA gyda phartneriaeth—

- (a) os yw unrhyw aelod unigol o'r bartneriaeth honno, neu
- (b) os yw'r bartneriaeth honno,

yn dod o fewn rheoliad 6(2) o Reoliadau 2023.

(4) Ni chaiff Bwrdd Iechyd Lleol ymrwymo i gontract GMDdA gyda chymdeithas ddiwydiannol a darbodus(b), cymdeithas gydweithredol, cymdeithas budd cymunedol(c), cymdeithas gyfeillgar, sefydliad gwirfoddol(d) na gydag unrhyw gorff arall—

---

(a) O.S. 2023/953 (Cy. 155).

- (a) os yw'r gymdeithas, y sefydliad neu'r corff, neu
- (b) os yw unrhyw swyddog, unrhyw ymddiriedolwr, neu unrhyw berson arall, sy'n ymwneud â rheoli'r gymdeithas, y sefydliad neu'r corff,

yn dod o fewn rheoliad 6(2) o Reoliadau 2023.

(5) At ddibenion cyfarwyddydau 1(1) i 3(4)—

- (a) mae rheoliad 6 o Reoliadau 2023 i'w ddehongli fel pe bai, yn rheoliad 6(3), y canlynol wedi ei fewnosod yn union ar ôl rheoliad 6(3)(b)(iii)—
  - “(iv) yn achos cymdeithas ddiwydiannol a darbodus, cymdeithas gyfeillgar, sefydliad gwirfoddol neu gorff arall, yn swyddog, yn ymddiriedolwr, neu'n berson arall, sy'n ymwneud â rheoli cymdeithas, sefydliad, neu gorff arall, o'r fath sy'n ymrwymo i contract GMDdA.”, a
- (b) mae rheoliad 6(2) o Reoliadau 2023 i'w ddehongli yn unol â rheoliad 6(4) a (5) o'r Rheoliadau hynny.

## RHAN 3

### TELERAU GORFODOL AR GYFER POB CONTRACT GMDdA

#### Telerau cyffredinol

**4.** Rhaid i Fwrdd Iechyd Lleol sy'n ymrwymo i contract GMDdA sicrhau bod y contract GMDdA—

- (a) yn pennu hyd y contract GMDdA, yn ddarostyngedig i unrhyw ddarpariaethau sy'n caniatáu ar gyfer terfynu'r contract GMDdA yn gynharach, neu'n caniatáu ar gyfer estyn hyd y contract GMDdA,
- (b) yn datgan ei fod yn contract GIG pan fo'r contract i fod yn contract GIG oherwydd bod y contractwr GMDdA yn gorff GIG, neu ei fod i'w ystyried yn gorff o'r fath yn rhinwedd Rhan 4 o Reoliadau 2023,
- (c) yn pennu i bwy y mae'r contractwr GMDdA i ddarparu gwasanaethau o dan y contract GMDdA, gan gynnwys, pan fo'n briodol, drwy gyfeirio at ardal y byddai gan berson sy'n preswyllo ynddi hawlogaeth i gael gwasanaethau o dan y contract GMDdA,
- (d) yn ei gwneud yn ofynnol i'r contractwr GMDdA gydymffurfio (fel pe bai'r contract GMDdA, at y dibenion hyn yn unig, yn contract GMC a'r contractwr GMDdA yn contractwr GMC) ag unrhyw gyfarwyddydau a roddir gan Weinidogion Cymru at ddibenion adran 46 o Ddeddf 2006 ynghylch y cyffuriau, y meddyginiaethau neu'r sylweddau eraill y caniateir neu na chaniateir eu harchebu ar gyfer cleifion wrth ddarparu gwasanaethau meddygol o dan y contract GMDdA,
- (e) yn ei gwneud yn ofynnol i'r contractwr GMDdA hysbysu'r Bwrdd Iechyd Lleol cyn gynted â phosibl os yw unrhyw broffesiynolyn gofal iechyd sydd wedi ei gyflogi neu wedi ei gymryd ymlaen gan y contractwr GMDdA—
  - (i) yn cael ei atgyfeirio at y corff proffesiynol perthnasol am gamymddwyn honedig, neu
  - (ii) yn cael ei ddileu o'r gofrestr berthnasol,

- 
- (b) Sefydliad a oedd wedi ei gofrestru o dan Ddeddf Cymdeithasau Diwydiannol a Darbodus 1965 (p. 12), sydd bellach wedi ei diddymu, yw cymdeithas ddiwydiannol a darbodus. Mae cymdeithasau o'r fath yn cael eu trin fel cymdeithas gofrestredig o dan Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014 (p. 14).
  - (c) Sefydliadau sydd wedi eu cofrestru o dan Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014 (p. 14) yw cymdeithasau cydweithredol a chymdeithasau budd cymunedol.
  - (d) Mae “voluntary organisation” (“sefydliad gwirfoddol”) wedi ei ddiffinio yn adran 206(1) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006.

- (f) yn pennu na chaiff y contractwr GMDdA werthu, aseinio na gwaredu budd unrhyw un neu ragor o'i hawliau o dan y contract GMDdA heb gydsyniad ysgrifenedig ymlaen llaw gan y Bwrdd Iechyd Lleol,
- (g) yn ddarostyngedig i gyfarwyddyd 5(1)(b)(viii), yn pennu'r amgylchiadau (os oes rhai) pryd y caniateir is-gontractio unrhyw rwymedigaethau o dan y contract GMDdA,
- (h) yn pennu—
  - (i) y seiliau (yn ychwanegol at y rhai sy'n ofynnol gan gyfarwyddyd 5(1)(b)) y caniateir, neu y mae rhaid, terfynu'r contract GMDdA arnynt (gan naill ai'r Bwrdd Iechyd Lleol neu'r contractwr GMDdA), a
  - (ii) unrhyw sancsiynau contract a osodir,
- (i) yn pennu, yn achos contract nad yw'n gontract GIG, y gweithdrefnau sydd i fod yn gymwys yn achos anghydfod contractiol,
- (j) yn cynnwys, yn achos contract sy'n gontract GIG, delerau sy'n sicrhau—
  - (i) bod telerau sy'n cyfateb i baragraffau 106(1) i (4) a 108 o Atodlen 3 i Reoliadau 2023 yn gymwys (a'i bod yn ofynnol i'r Bwrdd Iechyd Lleol a'r contractwr GMDdA wneud pob ymdrech i sicrhau bod paragraffau 106(5) i (14) a 107(1) o Atodlen 3 i Reoliadau 2023 yn gymwys) os na all y partïon ddatrys rhyngddynt unrhyw anghydfodau sy'n codi o'r contract GMDdA, neu mewn cysylltiad ag ef,
  - (ii) ei bod yn ofynnol i'r Bwrdd Iechyd Lleol a'r contractwr GMDdA wneud pob ymdrech i sicrhau bod is-adrannau (12) a (13) o adran 7 o Ddeddf 2006 yn gymwys yn yr un modd ag y mae'r is-adrannau hynny yn gymwys i anghydfod a atgyfeirir i'w benderfynu yn unol ag adran 7(6) o'r Ddeddf, a
  - (iii) ei bod yn ofynnol i'r Bwrdd Iechyd Lleol a'r contractwr GMDdA wneud pob ymdrech i sicrhau, pan fo'r dyfarnwr yn gwneud cyfarwyddyd ynghylch taliadau o dan adran 7(11) o Ddeddf 2006 (fel y mae'n cael effaith o ganlyniad i adran 7 o Ddeddf 2006 neu gyfarwyddyd 4(1)(j)(ii)), fod y cyfarwyddyd hwnnw i fod yn orfodadwy mewn llys sirol (os yw'r llys yn gorchymyn hynny) fel pe bai'n ddyfarniad neu'n orchymyn gan y llys,
- (k) yn pennu'r amgylchiadau (os oes rhai) pryd na fydd parti yn gyfrifol i'r parti arall am unrhyw fethiant neu unrhyw oedi wrth gyflawni ei rwymedigaethau a'i ddyletswyddau o dan y contract GMDdA hwn,
- (l) yn datgan—
  - (i) y trefniadau ar gyfer y taliadau gan y Bwrdd Iechyd Lleol i'r contractwr GMDdA am y gwasanaethau y mae'r contractwr GMDdA yn eu darparu, a
  - (ii) unrhyw hawliau a all fod gan y Bwrdd Iechyd Lleol i wrthbwyso yn erbyn unrhyw swm sy'n daladwy i'r contractwr GMDdA unrhyw swm sy'n ddyledus gan y contractwr GMDdA i'r Bwrdd Iechyd Lleol, ac
- (m) yn pennu unrhyw warantiadau y mae'r naill barti neu'r llall yn eu rhoi i'w gilydd mewn cysylltiad â'r contract GMDdA.

### **Telerau contractiol eraill**

**5.** Rhaid i Fwrdd Iechyd Lleol sy'n ymrwymo i gontract GMDdA sicrhau bod y contract GMDdA yn cynnwys telerau sydd â'r effaith a bennir yn y darpariaethau a ganlyn o Reoliadau 2023—

- (a) rheoliad 18(1)(a) a (b) (y gwasanaethau i'w darparu a chyfeiriad pob mangre sydd i'w defnyddio gan y contractwr neu unrhyw is-gontractwr i ddarparu'r gwasanaethau hynny) a, phan fo'n berthnasol, reoliad 18(5);
- (b) yn Atodlen 3—
  - (i) paragraff 1 (mangreoedd),

- (ii) paragraffau 2 (ac eithrio is-baragraff (2)(a)) a 3 (gwasanaethau ffôn a chost galwadau perthnasol),
- (iii) paragraff 10 (adroddiadau clinigol), ond fel pe bai'r canlynol wedi ei roi yn lle is-baragraff (2)—
 

“(2) Rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol anfon unrhyw adroddiad sy'n dod i law o dan is-baragraff (1)—

  - (a) at y person y mae'r claf wedi ei gofrestru gydag ef ar gyfer darparu gwasanaethau unedig neu wasanaethau cyfatebol, neu
  - (b) os nad yw'r person y cyfeirir ato ym mharagraff (a) yn hysbys iddo, i'r Bwrdd Iechyd Lleol, y Bwrdd Iechyd, y Bwrdd Gofal Integredig neu'r Bwrdd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y mae'r claf yn preswyllo yn ei ardal, oni bai mai'r Bwrdd Iechyd Lleol hwnnw ydyw.

(3) Nid yw'r paragraff hwn yn gymwys mewn perthynas â gwasanaethau y tu allan i oriau a ddarperir gan contractwr.”,
- (iv) paragraffau 11 (storio brechlynnau) a 12 (rheoli heintiau),
- (v) paragraff 21 (y Gymraeg),
- (vi) Rhan 5 (rhagnodi a gweinyddu) ond fel pe bai'r canlynol hefyd wedi ei gynnwys yn y rhestr ym mharagraff 52(8)—
 

“(e) yn achos contract gyda chymdeithas ddiwydiannol a darbodus, cymdeithas gyfeillgar, sefydliad gwirfoddol, neu unrhyw gorff arall, unrhyw ymarferydd meddygol sy'n swyddog, yn ymddiriedolwr, neu'n unrhyw berson arall, sy'n ymwneud â rheoli'r gymdeithas, y sefydliad neu'r corff.”,
- (vii) Rhan 6 (personau sy'n cyflawni gwasanaethau) ond fel pe bai paragraffau 61(3)(a), 70, 71, 72, a 75(2) a (3) wedi eu hepgor ac fel pe bai'r geiriau “yn cymryd rhan mewn system arfarnu briodol, a” wedi eu rhoi yn lle paragraff 75(1)(a),
- (viii) paragraff 76(11) a (12) (is-gontractio materion clinigol),
- (ix) paragraffau 78(1), (3), (4), (12) a (13), 82, 83, 85, 86, 90, 91 i 94 (heblaw is-baragraffau (1)(d) a (3)), 95, 96 (pan fo'r contractwr GMDdA yn gwmni cyfyngedig drwy gyfrannau, ac eithrio bod is-baragraff (2)(a) wedi ei hepgor a bod cyfeiriad at gyfarwyddyd 3 wedi ei roi yn lle'r cyfeiriad yn is-baragraff (2)(b) at reoliadau 5 a 6, ac yn lle'r cyfeiriad yn is-baragraff (3) at reoliad 6), 97 (pan fo'r contractwr GMDdA yn bartneriaeth, ac eithrio bod is-baragraff (3)(b) wedi ei hepgor a bod cyfeiriad at gyfarwyddyd 3 wedi ei roi yn lle'r cyfeiriad yn is-baragraff (3)(c) at reoliadau 5 a 6), 98 a 100(1) a (2),
- (x) Rhan 9 (pryderon, cwynion ac ymchwiliadau),
- (xi) paragraff 109 (amrywio contract: cyffredinol), ond fel pe bai—
  - (aa) yn is-baragraff (1), cyfeiriad at unrhyw ddarpariaethau yn y contract GMDdA sy'n ymdrin â sancsiynau contract wedi ei roi yn lle'r geiriau “paragraffau 76(8), 110, 111 a 124 o'r Atodlen hon”, a
  - (bb) yn is-baragraff (2), cyfeiriad at unrhyw ddarpariaethau yn y contract GMDdA sy'n ymdrin â sancsiynau contract wedi ei roi yn lle'r geiriau “Yn ychwanegol at y ddarpariaeth benodol a wneir ym mharagraffau 110(6), 111(11) a 124”,
- (xii) pan fo'r contractwr GMDdA yn ymarferydd meddygol unigol, paragraff 113 (terfynu yn sgil marwolaeth ymarferydd meddygol unigol),
- (xiii) paragraff 118 (terfynu gan y Bwrdd Iechyd Lleol am ddarparu gwybodaeth anwir etc.) ond fel pe bai'r cyfeiriad at reoliadau 5 a 6 yn gyfeiriad at gyfarwyddyd 3,
- (xiv) paragraff 119 (seiliau eraill dros derfynu gan y Bwrdd Iechyd Lleol) ond fel pe bai—
  - (aa) y canlynol wedi ei roi yn lle is-baragraffau (1) a (2)—

**“119.—**(1) Caiff y Bwrdd Iechyd Lleol roi hysbysiad ysgrifenedig yn terfynu’r contract GMDdA ar unwaith, neu o unrhyw ddyddiad a bennir yn yr hysbysiad os yw is-baragraff (3) yn gymwys i’r contractwr.

(2) Mae cyfeiriadau yn is-baragraff (3) at y contractwr i’w dehongli fel cyfeiriad at—

(a) yn achos contract GMDdA gydag unigolyn, yr unigolyn hwnnw,

(b) yn achos contract GMDdA gyda chwmni—

(i) y cwmni, neu

(ii) unrhyw gyfarwyddwr neu unrhyw ysgrifennydd cwmni i’r cwmni,

(c) yn achos contract GMDdA gyda phartneriaeth—

(i) unrhyw aelod o’r bartneriaeth, neu

(ii) y bartneriaeth, neu

(d) yn achos contract GMDdA gyda chymdeithas ddiwydiannol a darbodus, cymdeithas gyfeillgar, sefydliad gwirfoddol neu unrhyw gorff arall—

(i) y gymdeithas, y sefydliad neu’r corff arall, neu

(ii) swyddog, ymddiriedolwr, neu unrhyw berson arall, sy’n ymwneud â rheoli’r gymdeithas, y sefydliad neu’r corff.”;

(bb) paragraffau (a) a (v) o is-baragraff (3) wedi eu hepgor;

(cc) y testun a ganlyn wedi ei roi yn lle is-baragraffau (4)(a) i (c) a (6)(a) i (c)—

“(a) os yw’r contract gydag unigolyn, yn contractwr,

(b) os yw’r contract gyda chwmni, yn berson y mae cyfran yn y cwmni hwnnw yn eiddo cyfreithiol neu lesiannol iddo, neu’n unrhyw gyfarwyddwr neu’n unrhyw ysgrifennydd i’r cwmni hwnnw,

(c) os yw’r contract gyda phartneriaeth, yn bartner yn y bartneriaeth, neu

(d) os yw’r contract gyda chymdeithas ddiwydiannol a darbodus, cymdeithas gyfeillgar, sefydliad gwirfoddol, neu unrhyw gorff arall, yn swyddog, yn ymddiriedolwr, neu’n unrhyw berson arall, sy’n ymwneud â rheoli’r gymdeithas, y sefydliad neu’r corff.”,

(xv) paragraff 120 (terfynu gan y Bwrdd Iechyd Lleol pan fo risg ddifrifol i ddiogelwch cleifion neu pan fo risg o golled ariannol sylweddol i’r Bwrdd Iechyd Lleol),

(xvi) paragraff 121 (terfynu gan y Bwrdd Iechyd Lleol am is-contractio anghyfreithlon),

(xvii) pan fo’r contractwr GMDdA yn gorff corfforedig, paragraff 123(1) (terfynu gan y Bwrdd Iechyd Lleol: darpariaethau ychwanegol sy’n benodol i gcontractau gyda dau neu ragor o unigolion yn ymarfer mewn partneriaeth a chwmnïau cyfyngedig drwy gyfrannau), ond fel pe bai’r cyfeiriad ym mharagraff 123(1) at gwmni sy’n gyfyngedig drwy gyfrannau yn gyfeiriad at gorff corfforedig,

(xviii) pan fo’r contractwr GMDdA yn bartneriaeth, paragraff 123(2), a

(xix) Rhan 12 ac eithrio paragraff 128(3) a (4).

## **Tystysgrifau**

6. Rhaid i Fwrdd Iechyd Lleol sy’n ymrwymo i gcontract GMDdA sicrhau bod y contract GMDdA yn cynnwys telerau sydd â’r effaith a bennir yn rheoliad 19 (tystysgrifau) o Reoliadau 2023 ac Atodlen 1 (Rhestr o Dystysgrifau Meddygol Rhagnodedig) iddynt.

## **Ffioedd, taliadau a buddiannau ariannol**

7. Rhaid i Fwrdd Iechyd Lleol sy’n ymrwymo i gcontract GMDdA sicrhau bod y contract GMDdA yn cynnwys telerau sydd â’r un effaith â’r rhai a bennir yn rheoliadau 21(2) i (9) a 22 o Reoliadau 2023 (ac eithrio nad yw rheoliadau 21(5) a (6) a 22(e) ond yn ofynnol ar gyfer contractau GMDdA y mae gwasanaethau unedig i’w darparu odanynt).

## Canlyniadau terfynu contract GMDdA

8. Rhaid i Fwrdd Iechyd Lleol sy'n ymrwymo i gontract GMDdA sicrhau bod y contract GMDdA yn gwneud darpariaeth addas ar gyfer y trefniadau pan derfynir contract GMDdA, gan gynnwys y gofynion ar y contractwr GMDdA yn y cyfnod cyn terfynu, a chanlyniadau dod â'r contract GMDdA i ben (pa un ai yn ariannol neu fel arall).

## RHAN 4

### TELERAU GORFODOL AR GYFER CONTRACT GMDdA Y MAE GWASANAETHAU UNEDIG I'W DARPARU ODANO

9.—(1) Yn ddarostyngedig i gyfarwyddyd 9(2), rhaid i Fwrdd Iechyd Lleol sy'n ymrwymo i gontract GMDdA y mae gwasanaethau unedig i'w darparu odano sicrhau (yn ychwanegol at y gofynion a bennir yng nghyfarwyddydau 4 i 8, 10 ac 11) fod y contract GMDdA yn cynnwys telerau sydd â'r effaith a bennir yn y darpariaethau a ganlyn o Reoliadau 2023—

- (a) rheoliadau 17 a 18(2), (3), (4) a (7), ac Atodlen 2;
- (b) rheoliadau 23, 24 a 25;
- (c) yn Atodlen 3—
  - (i) paragraff 2(2)(a) (gwasanaethau ffôn),
  - (ii) paragraff 4 (mynediad),
  - (iii) paragraff 5 (mynd i fangre practis),
  - (iv) paragraff 6 (mynd at gleifion y tu allan i fangre practis),
  - (v) paragraff 7 (cleifion sydd newydd gofrestru),
  - (vi) paragraff 8 (cleifion sydd heb eu gweld o fewn 3 blynedd),
  - (vii) paragraff 9 (cleifion 75 oed a throsodd),
  - (viii) paragraffau 13, 14 ac 20 (y ddyletswydd i gydweithredu),
  - (ix) paragraffau 15, 16, 17, 18 a 19 (clystyrau a chydweithredfeydd),
  - (x) Rhan 2 (cleifion) (heblaw paragraff 22(1)),
  - (xi) paragraffau 70, 71 a 72 (telerau ac amodau, trefniadau ar gyfer Cofrestrwyr Arbenigol Ymarfer Cyffredinol, a gofynion o ran hysbysiadau mewn cysylltiad â rhagnodwyr perthnasol),
  - (xii) paragraffau 78(2), (5), (6), (7), (8), (9), (10) ac (11), 79 i 81, 84, 87 i 89, 94(1)(d) a (3), ac Atodlen 4,
  - (xiii) paragraff 99 (hysbysiadau i gleifion ar ôl amrywio'r contract), ond fel pe bai'r geiriau “yn unol â Rhan 11 o'r Atodlen hon” yn gyfeiriad at y rhan o'r contract GMDdA sy'n ymdrin ag amrywio'r contract GMDdA, a
  - (xiv) paragraff 128(3) a (4).

(2) Nid yw'r gofynion yng nghyfarwyddyd 9(1) yn gymwys i'r graddau y mae'r gwasanaethau sydd i'w darparu gan y contractwr GMDdA yn ymwneud â gwasanaethau sydd i'w darparu mewn carchar.

(3) Rhaid i Fwrdd Iechyd Lleol sicrhau bod unrhyw gontract GMDdA y mae gwasanaethau unedig i'w darparu odano yn gwneud darpariaeth ynghylch yr amgylchiadau (os oes rhai) pryd y caiff y Bwrdd Iechyd Lleol neilltuo cleifion i'r contractwr GMDdA a, phan fo'n briodol, ynghylch a yw rhestr o gleifion y contractwr GMDdA i'w hystyried yn agored ynteu wedi ei chau ac o dan ba amgylchiadau y caiff statws y rhestr newid.

(4) Rhaid i Fwrdd Iechyd Lleol sicrhau bod contract GMDdA o'r fath yn gwneud darpariaeth ynghylch yr amgylchiadau (os oes rhai) pryd y mae'n ofynnol i'r contractwr GMDdA roi sylw i glaf yn rhywle heblaw mangre'r contractwr.

## RHAN 5

### TELER GORFODOL AR GYFER CONTRACT GMDdA Y MAE GWASANAETHAU Y TU ALLAN I ORIAU I'W DARPARU ODANO

10. Pan fo Bwrdd Iechyd Lleol yn ymrwymo i contract GMDdA y mae gwasanaethau y tu allan i oriau i'w darparu odano, rhaid iddo sicrhau bod y contract GMDdA (yn ychwanegol at y gofynion a bennir yng nghyfarwyddydau 4 i 9) yn ei gwneud yn ofynnol i'r contractwr GMDdA, wrth ddarparu gwasanaethau o'r fath, gyrraedd y safonau diweddaraf a chyflawni'r dangosyddion ansawdd diweddaraf a nodir mewn canllawiau a ddyroddir gan Lywodraeth Cymru o bryd i'w gilydd.

## RHAN 6

### RHESTR O GLEIFION

11. Pan fo contract GMDdA yn ei gwneud yn ofynnol i contractwr GMDdA ddarparu gwasanaethau unedig ac i fod â rhestr o gleifion, rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol lunio a diweddarau rhestr o'r cleifion sydd—

- (a) wedi eu derbyn gan y contractwr GMDdA i'w cynnwys yn rhestr y contractwr GMDdA o gleifion yn unol â thelerau'r contract GMDdA ac nad ydynt wedi eu dileu oddi ar y rhestr honno wedyn yn unol â thelerau'r contract GMDdA, a
- (b) pan fo'n gymwys, wedi eu neilltuo i'r contractwr GMDdA yn unol â thelerau'r contract GMDdA ac nad yw'r penderfyniad i'w neilltuo wedi ei ddad-wneud.

## RHAN 7

### AMRYWIOL

#### **Contractau GMDdA yr ymrwymwyd iddynt cyn i'r Cyfarwyddydau hyn ddod i rym**

12.—(1) Pan fo Bwrdd Iechyd Lleol wedi ymrwymo i contract GMDdA cyn i'r Cyfarwyddydau hyn ddod i rym, ac na fo'r contract hwnnw'n cydymffurfio â'r Cyfarwyddydau hyn, rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol, pan fo ganddo bŵer o dan y contract GMDdA hwnnw i osod amrywiad o'r contract GMDdA, arfer y pŵer hwnnw er mwyn sicrhau bod y contract GMDdA yn gydnaws â'r Cyfarwyddydau hyn.

(2) Mewn achosion pan fo Bwrdd Iechyd Lleol wedi ymrwymo i contract GMDdA cyn i'r Cyfarwyddydau hyn ddod i rym, ac na fo'r contract hwnnw'n cydymffurfio â'r Cyfarwyddydau hyn ond na fo gan y Bwrdd Iechyd Lleol y pŵer i osod yr amrywiad neu'r amrywiadau angenrheidiol, rhaid iddo ddechrau trafodaethau â'r contractwr GMDdA gyda'r bwriad o gytuno ar amrywiadau i'r contract GMDdA i'w wneud yn gydnaws â'r Cyfarwyddydau hyn.

## RHAN 8

### DIRYMIADAU

13. Mae Cyfarwyddydau Gwasanaethau Meddygol gan Ddarparwyr Amgen (Cymru) 2024(a), a ddaeth i rym ar 2 Gorffennaf 2024, wedi eu dirymu.

---

(a) 2024 No. WG24-28.



**Llofnodwyd gan Paul Casey, Dirprwy Gyfarwyddwr Gofal Sylfaenol a Chymunedol, o dan awdurdod y Gweinidog Cabinet dros Iechyd a Gofal, un o Weinidogion Cymru**

**Dyddiad: 14 Hydref 2026**